Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Equality and Human Rights Commission

Hawliau dynol

Pwy ydych chi'n ei weld?

Byw gyda'n gilydd yng Nghymru

Negeseuon allweddol

- Cytunodd mwyafrif llethol y dylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru warantu i drin pawb gyda pharch, urddas a thegwch.
- Ceir cefnogaeth gref i'n cyfreithiau i ddiogelu Hawliau Dynol
- Mae 47% yn cytuno mai dim ond pan fydd pobl yn ceisio cael rhywbeth nad oes ganddynt hawl iddo y maent yn sôn am eu hawliau dynol
- Mae cyfran sylweddol o bobl yng Nghymru yn cytuno nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn deall cyfreithiau hawliau dynol
- Mae hanner poblogaeth Cymru yn credu nad yw materion hawliau dynol yn effeithio arnynt yn bersonol.

Hawliau dynol

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canfyddiadau'r cwestiwn ynglŷn â hawliau dynol yn yr arolwg o agweddau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Nod y cwestiynau oedd asesu barn ynglŷn â hawliau dynol a mesur cefnogaeth.

Cael eich trin gyda pharch, urddas a thegwch

Cytunodd mwyafrif llethol (83 y cant) y dylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru warantu i drin pawb gyda pharch, urddas a thegwch 'bob amser'. Dywedodd 14 y cant y dylai hyn ddigwydd 'y rhan fwyaf o'r amser' a theimlai 3 y cant y dylai ddigwydd 'peth o'r amser'. Dim ond 1 y cant a anghytunodd â'r datganiad hwn

Gwelwyd rhai gwahaniaethau gwerth eu nodi yn yr is-grwpiau a oedd fwyaf tebygol o gytuno 'bob amser'. Roedd oedolion gwyn yn fwy tebygol o ddweud y dylai pawb gael eu trin gyda pharch, urddas a thegwch 'bob amser' nag oedolion nad oeddent yn wyn (83 y cant o gymharu â 75 y cant).

Teimlai 85 y cant o bobl mewn cyflogaeth y dylai hyn ddigwydd 'bob amser'. Roedd hyn dipyn yn uwch na'r gyfran o bobl wedi ymddeol a phobl nad oeddent mewn cyflogaeth (80 y cant a 78 y cant yn y drefn honno). Roedd oedolion yng ngraddau cymdeithasol AB[1] ac C1[2]yn llawer mwy tebygol na phobl yng ngraddau cymdeithasol C2[3] a DE[4]o gytuno y dylai pawb gael eu trin gyda pharch, urddas a thegwch bob amser (88 y cant ac 86 y cant o gymharu â 75 y cant a 77 y cant yn y drefn honno).

[1] cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi rheoli/gweinyddol/proffesiynol uwch a chanolraddol
[2] cartrefi sy'n cynnwys deiliaid swyddi goruchwylio, clercol, is-reoli/gweinyddol/proffesiynol
[3] gweithwyr llaw crefftus
[4] gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft neu sy'n cael budd-daliadau/sy'n ddi-waith

Tabl 5.1 Yn eich barn chi, a ddylai darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru warantu i drin pawb gyda pharch, urddas a thegwch?

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	*Dylai, bob amser (%)*	*Dylai, y rhan fwyaf o'r amser (%)*	*Dylai, peth o'r amser (%)*	*Na ddylai (%)*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**83**	**14**	**3**	**1**
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1438*	*1555*	83	13	3	1
Arall	*151*	*34*	75	21	2	-
Yn gweithio	*899*	*876*	85	12	3	*
Wedi ymddeol	*428*	*432*	80	16	3	*
Ddim yn gweithio	262	*281*	78	16	4	1
AB	*382*	*376*	88	9	2	*
C1	*533*	*538*	86	12	1	*
C2	*242*	*241*	75	17	7	2
DE	*428*	*431*	77	18	4	*

Noder: * yn dynodi canfyddiad o lai na 0.5%, ond yn fwy na 0.

Er bod y gwahaniaethau hyn yn amlwg yn y data, mae'n werth cofio bod lefelau cytundeb yn uchel iawn ym mhob grŵp.

Safbwyntiau ar hawliau dynol

Defnyddiwyd chwe datganiad er mwyn mesur ymateb pobl i'r ymadrodd 'hawliau dynol', yn hytrach na phrofi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

Roedd y mwyafrif llethol o oedolion yng Nghymru yn cefnogi cyfreithiau hawliau dynol (93 y cant). Fodd bynnag, cytunodd 64 y cant fod cyfreithiau o'r fath, yn ôl eu canfyddiad hwy, yn tynnu sylw'r llywodraeth oddi wrth adolygu hawliau pobl gyffredin. Yn wir, roedd elfen o sgeptigaeth ar ddwy lefel:

- cytunodd un o bob pump (20 y cant) yn gryf mai dim ond pan fydd pobl yn ceisio cael rhywbeth nad oes ganddynt hawl iddo y maent yn sôn am eu hawliau dynol
- anghytunodd 21 y cant fod sylw'r cyfryngau i straeon ynglŷn â hawliau dynol yn deg

Awgryma'r dadansoddiad fod elfen o 'datgysylltu' â hawliau dynol. Cafwyd cytundeb cyffredinol nad yw cyfreithiau hawliau dynol yn cael eu deall yn dda (83 y cant) ac ni theimlai hanner yr oedolion (49 y cant) fod materion hawliau dynol yn effeithio arnynt yn bersonol. Gallai hyn awgrymu bod llai o bobl yn cysylltu hawliau dynol â'u hymwneud bob dydd.

Ffigur 5.1 Cytuno â'r datganiadau ynglŷn â Hawliau Dynol



Sylfaen: Pob ymatebwr (heb eu pwysoli: 1,589, wedi'u pwysoli: 1,589)

Yn ôl dadansoddiad o'r is-grwpiau roedd rhai grwpiau yn fwy tebygol o fynegi safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn â hawliau dynol.

Yn gyffredinol, roedd pobl iau, pobl a oedd yn gweithio, pobl yng ngraddau cymdeithasol uwch a phobl a ddywed y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal sydd â gwahanol fathau o bobl yn fwyaf

tebygol o fod yn gadarnhaol. Gellir gweld y patrwm hwn ar draws tri o'r datganiadau (tabl 5.2) a rhoddir rhagor o fanylion am yr is-grwpiau hyn fesul datganiad isod.

“Cefnogaf y ffaith bod gennym gyfreithiau ym Mhrydain i ddiogelu Hawliau Dynol"

- Roedd pobl o dan 65 oed ychydig yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl 65 neu'n hŷn (94 y cant o gymharu ag 89 y cant). Yn gysylltiedig â hyn, cytunodd 95 y cant o bobl mewn cyflogaeth hefyd, a oedd yn uwch nag ymhlith pobl wedi ymddeol (90 y cant).
- Roedd bron bawb (97 y cant) a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw gyda gwahanol fathau o bobl yn cefnogi cyfreithiau hawliau dynol. Mewn cymhariaeth roedd 90 y cant o'r rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw gyda phobl debyg iddynt hwy eu hunain a 93 y cant o'r rhai nad oedd ganddynt farn bendant yn cefnogi hawliau dynol.

“Mae'r llywodraeth yn pryderu mwy am hawliau dynol grwpiau lleiafrifol na rhai pobl gyffredin”

- Cytunodd tua saith o bob deg (69 y cant) o oedolion yng Nghymru 55 oed neu'n hŷn â'r datganiad hwn. Mewn cymhariaeth cytunodd chwech o bob deg o bobl hyd at 55 oed (61 y cant).
- Cytunodd tua saith o bob deg o bobl yng ngraddau cymdeithasol C2 (72 y cant) a DE (69 y cant) â'r datganiad hwn. Roedd lefelau cytundeb dipyn yn is ymhlith oedolion AB ac C1 (56 y cant a 62 y cant yn y drefn honno).
- Cytunodd mwy na phedwar o bob pump (82 y cant) o bobl y byddai'n well ganddynt fyw gyda phobl debyg. Roedd hyn yn cymharu â dim ond 46 y cant o bobl y byddai'n well ganddynt fyw gyda gwahanol fathau o bobl.
- Cytunodd ychydig llai na dau o bob tri o bobl wyn Brydeinig neu Gymreig (64 y cant) â'r datganiad. Ymhlith pobl nad oeddent yn wyn cytunodd 49 y cant. Yn achos ffydd a chredo, cytunodd dau o bob tri o Gristnogion (67y cant) â'r datganiad hwn. Roedd hyn yn cymharu â 54 y cant o bobl â chrefydd arall a 56 y cant o bobl heb grefydd.

“Dim ond pan fydd pobl yn ceisio cael rhywbeth nad oes ganddynt hawl iddo y maent yn sôn am eu hawliau dynol”

- Roedd pobl 55 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad mai *dim ond pan fydd pobl yn ceisio cael rhywbeth nad oes ganddynt*

hawl iddo y maent yn sôn am eu hawliau dynol (52 y cant o gymharu â 44 y cant). Cytunodd tua hanner pobl wedi ymddeol (53 y cant) â'r datganiad o gymharu â 44 y cant o bobl mewn cyflogaeth.
- Cytunodd traean o oedolion AB (35 y cant) â'r datganiad hwn, o gymharu â mwy na hanner oedolion C2 a DE (51 y cant a 59 y cant yn y drefn honno).
- Cytunodd chwech o bob deg o oedolion (61 y cant) a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw gyda phobl debyg iddynt hwy eu hunain. Roedd cytundeb ymhlith y rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw gyda gwahanol fathau o bobl dipyn yn is sef 31 y cant.

Gwelwyd gwahaniaethau tebyg rhwng is-grwpiau mewn perthynas â'r datganiad '*nid yw materion hawliau dynol yn effeithio arna i'n bersonol*'. Mae'r datganiad hwn yn niwtral yn y bôn, ond gellir gweld bod y grwpiau hynny sydd fwyaf tebygol o fod ag agweddau negyddol tuag at hawliau dynol hefyd yn fwy tebygol o deimlo nad yw materion hawliau dynol yn effeithio arnynt.

“Nid yw materion hawliau dynol yn effeithio arna i'n bersonol"

- Cytunodd tua chwech o bob deg (58 y cant oedolion dros 65 oed a 54 y cant o bobl 55-64 â'r datganiad hwn. Roedd cytundeb dipyn yn is ymhlith pobl 16-34 oed a 35-54 oed (44 y cant a 46 y cant yn y drefn honno).
- Roedd pobl wedi ymddeol dipyn yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl mewn cyflogaeth (58 y cant o gymharu â 45 y cant).
- Cytunodd 54 y cant o bobl yng ngraddau cymdeithasol C2 a DE nad yw materion hawliau dynol yn effeithio arnynt yn bersonol. Cytunodd llai na hanner y bobl yng ngraddau cymdeithasol AB ac C1 (48 y cant a 45 y cant).
- Roedd y rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl debyg iddynt hwy eu hunain yn llawer mwy tebygol o gytuno na'r rhai y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl (57 y cant o gymharu â 36 y cant).

Ni ellid gweld patrwm i'r ymatebion mewn perthynas â'r ddau ddatganiad arall, ond crynhoir y gwahaniaethau a oedd yn amlwg isod.

“Nid yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn deall cyfreithiau hawliau dynol”

- Roedd pobl a oedd mewn cyflogaeth yn fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl wedi ymddeol (85 y cant o gymharu â 79 y cant).
- Cytunodd 86 y cant o bobl yng ngraddau cymdeithasol AB â'r datganiad hwn, ond o gymharu â hynny roedd llai yn cytuno ymhlith y rhai yng ngraddau cymdeithasol DE (80 y cant).
- Roedd y rhai a ddywedodd y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda gwahanol fathau o bobl yn llawer mwy tebygol o gytuno na'r rhai y byddai'n well ganddynt fyw mewn ardal gyda phobl debyg iddynt hwy eu hunain (86 y cant o gymharu â 78 y cant). Roedd y rhai nad oedd ganddynt farn bendant ynglŷn â'r ardal lle maent yn byw hefyd yn fwy tebygol o gytuno (83 y cant).

"Mae sylw'r cyfryngau i straeon ynglŷn â hawliau dynol yn deg"

- Er bod dynion a menywod yr un mor debygol o gytuno â'r datganiad hwn, roedd dynion yn llawer mwy tebygol o anghytuno ag ef (51 y cant o gymharu â 43 y cant).
- Cytunodd 28 y cant o bobl yng ngraddau cymdeithasol AB â'r datganiad hwn. Roedd llawer mwy ymhlith graddau cymdeithasol eraill yn cytuno; cytunodd 38 y cant ymhlith unigolion C1, 41 y cant o unigolion C2 a 46 y cant o unigolion DE.
- Cytunodd dau o bob pump o Gristnogion (41 y cant) â'r datganiad hwn, ond dim ond 30 y cant o'r rhai heb grefydd a gytunodd.

Tabl 5.2 Cytuno â'r datganiadau ynglŷn â hawliau dynol

	Sylfaen heb ei phwysoli, n=	*Sylfaen wedi'i phwysoli, n=*	Cefnogi'r ffaith *bod gennym* gyfreithiau ym Mhrydain i ddiogelu Hawliau Dynol	Dim ond pan fydd pobl yn ceisio cael rhywbeth nad oes ganddynt hawl iddo y maent yn sôn am eu hawliau dynol	Mae'r llywodraeth yn pryderu mwy am hawliau dynol grwpiau lleiafrifol na rhai pobl gyffredin	Nid yw materion hawliau dynol yn effeithio arna i'n bersonol	"Nid yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn deall cyfreithiau hawliau dynol	Mae sylw'r cyfryngau i straeon ynglŷn â hawliau dynol yn deg
			% sy'n cytuno	*% sy'n cytuno*	*% sy'n cytuno*	*% sy'n cytuno*	*% sy'n cytuno*	*% sy'n cytuno*
Cyfanswm	***1,589***	***1,589***	**93**	**47**	**64**	**50**	**83**	**38**
16-34	*385*	*413*	96	42	61	44	83	40
35-54	*598*	*581*	93	44	62	46	84	37
55-64	*262*	*248*	94	53	70	54	81	35
65+	*344*	*347*	89	52	68	58	81	40
Yn gweithio	*899*	*876*	95	44	64	45	85	37
Wedi ymddeol	*428*	*432*	90	53	68	58	79	38
Ddim yn gweithio	*262*	*281*	92	46	59	51	82	42
AB	*382*	*376*	95	35	56	48	86	28
C1	*533*	*538*	93	43	62	45	82	38

C2	*242*	*241*	87	51	72	54	82	41
DE	*428*	*431*	94	59	69	54	80	46
Byddai'n well ganddynt fyw gyda gwahanol fathau o bobl	*236*	*231*	97	31	46	36	86	28
Byddai'n well ganddynt fyw gyda phobl debyg	*337*	*342*	90	61	82	57	78	45
Dim barn bendant	*1005*	*1005*	93	46	62	50	83	38
Gwyn Prydeinig/Cymreig	*1,438*	*1,555*	93	47	64	50	83	38
Arall	*151*	*34*	95	49	49	48	82	43
Cristion	*1,123*	*1,144*	93	50	67	52	82	41
Crefydd arall	*103*	*56*	93	40	54	44	82	36
Dim crefydd	*349*	*375*	92	38	56	44	83	30
Wedi gorffen addysg: Parhau i fod mewn addysg	*78*	*92*	97	44	54	43	83	40
16 neu'n iau	*638*	*651*	90	58	74	58	82	43
17-18	*327*	*334*	94	50	68	53	81	40
19+	*544*	*511*	95	31	51	38	85	30

Cymharu ag ymchwil ym Mhrydain Fawr

Defnyddiwyd tri o'r datganiadau ynglŷn â hawliau dynol mewn arolwg a gynhaliwyd gan GfK NOP ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ledled Prydain Fawr[5].

O gymharu'r canfyddiadau nodir bod pobl yng Nghymru yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad mai dim ond pan fydd pobl yn ceisio cael rhywbeth nad oes ganddynt hawl iddo y maent yn sôn am eu hawliau dynol (47 y cant o gymharu â 56 y cant yn yr ymchwil ledled Prydain Fawr). Roeddent hefyd yn fwy tebygol o gytuno bod '*sylw'r cyfryngau i straeon ynglŷn â hawliau dynol yn deg*' (38 y cant o gymharu â 23 y cant).

Tabl 5.3 Cymharu agweddau tuag at hawliau dynol rhwng canfyddiadau'r cyhoedd yng Nghymru a ledled Prydain Fawr

	Cymru		Prydain Fawr	
Sylfaen heb ei phwysoli	*1,589*		*1,950*	
Sylfaen wedi'i phwysoli	*1,589*		*1,949*	
	Cytuno	*Anghytuno*	*Cytuno*	*Anghytuno*
	%	*%*	*%*	*%*
Mae'r llywodraeth yn pryderu mwy am hawliau dynol grwpiau lleiafrifol na rhai pobl gyffredin	64	25	68	15
Dim ond pan fydd pobl yn ceisio cael rhywbeth nad oes ganddynt hawl iddo y maent yn sôn am eu hawliau dynol	47	44	56	25
Mae sylw'r cyfryngau i straeon ynglŷn â hawliau dynol yn deg	38	47	23	48

[5] Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r ddau arolwg am fod dulliau gwahanol wedi eu defnyddio

Crynodeb

Ymhlith oedolion yng Nghymru, roedd consensws cyffredinol y dylai pawb gael eu trin gyda pharch, urddas a thegwch. Roedd llawer iawn yn cytuno â chyfreithiau ym Mhrydain i ddiogelu Hawliau Dynol ac yn eu cefnogi. Awgryma hyn fod y mwyafrif llethol o bobl yng Nghymru yn ystyried cyfreithiau hawliau dynol yn beth da ynddynt hwy eu hunain.

Eto i gyd, cafwyd awgrym cryf na fyddai pobl yn gwybod o anghenraid beth maent yn ei gefnogi. Cytunodd mwy na phedwar o bob pump '*nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn deall cyfreithiau hawliau dynol*', a chytunodd tua hanner *'nid yw materion hawliau dynol yn effeithio arna i'n bersonol'*. Roedd safbwyntiau'n fwy cymysg o ran y ddau ddatganiad a gyfeiriodd at achosion canfyddedig o gamddefnyddio cyfreithiau hawliau dynol.

Nodiadau

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymchwil ar gael ar dudalennau'r Comisiwn yng Nghymru ar ein gwefan yn:

www.equalityhumanrights.com

Ynglŷn â'r arolwg o agweddau

Comisiynodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru GfK NOP i ymgymryd ag ymchwil i agweddau pobl tuag at wahaniaethu, hawliau dynol a chydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn ceisio archwilio agweddau pobl tuag at wahaniaethu o ran rhyw, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, dynion hoyw a lesbiaid, materion o ran oedran, crefydd a ffydd a hefyd y Gymraeg. Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi mesur sylfaenol o agweddau y gellid eu mesur eto yn y dyfodol.

Roedd y sampl yn cynnwys 1,589 o ymatebwyr. Cynhaliwyd yr arolwg dros y ffôn. Cafodd pob ymatebwr y dewis o gwblhau'r arolwg yn Gymraeg. Ymdriniwyd â materion o ran mynediad drwy gynnig y cyfle i ddefnyddio gwasanaeth TypeTalk i'r rhai â nam ar y clyw. I'r rhai a gafodd anhawster i gyfathrebu yn Saesneg cynigiwyd y cyfle i ddefnyddio Llinell Iaith i gyfieithu'r cyfweliad.

Roedd y dull samplu a ddefnyddiwyd yn yr arolwg yn cyfuno dewis rhifau drwy Ddeialu Digidau ar Hap (RDD) a defnyddio cwotas i reoli proffil y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Pennwyd cwotâu yn ôl rhanbarth yng Nghymru (pum rhanbarth), yn ôl rhyw ynghyd â statws gwaith, yn ôl band oedran ac yn ôl tarddiad ethnig yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig a gafwyd o Gyfrifiad 2001. Pennwyd y rhain i sicrhau y byddai'r sampl yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn ôl y ffactorau hyn.

Hybwyd cyfweliadau mewn ardaloedd lle roedd cyfran uwch o bobl o leiafrifoedd ethnig yn y boblogaeth.

Cymharu â'r Alban a Phrydain Fawr

Cymharwyd y canfyddiadau ag Arolwg 2006 o Agweddau Cymdeithasol yn yr Alban a'r archwiliad o ganfyddiadau a gynhaliwyd gan GfK NOP. Dylid nodi mai dim ond cymharu'n fras y gellir ei wneud am fod methodolegau gwahanol wedi'u defnyddio yn y ddau arolwg hyn. Felly, mae'n rhaid trin unrhyw debygolrwydd neu wahaniaeth rhwng canfyddiadau'r arolygon hyn a chanlyniadau arolwg y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru fel rhai dangosol yn hytrach na rhai absoliwt.